

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Map cynnwys yr MLA

Yn berthnasol i bob arholiad ac
asesiad yn yr MLA a gaiff eu sefyll o
fis Medi 2026 ymlaen



Asesiad Trwyddedu Meddygol
gmc-uk.org/mla

Map cynnwys yr MLA

Cyhoeddwyd y **ddogfen** hon ym mis Hydref 2025 ac mae'n **berthnasol i bob arholiad ac asesiad yn yr MLA a gaiff eu sefyll o fis Medi 2026 ymlaen.**

Mae rhagor o wybodaeth am yr MLA ar gael ar ein gwefan: www.gmc-uk.org/mla

Yn berthnasol i bob arholiad ac asesiad o fis Medi 2026 ymlaen

Cynnwys

Map cynnwys yr MLA	1
Gwybodaeth am <i>fap cynnwys yr MLA</i>	3
Themâu sylfaenol.....	3
Beth sy'n rhan o <i>fap cynnwys yr MLA</i> ?	4
Strwythur <i>map cynnwys yr MLA</i>	5
Maes 1: Meysydd ymarfer clinigol.....	6
Maes 2: Meysydd gwybodaeth broffesiynol.....	8
Maes 3: Galluoedd clinigol a phroffesiynol.....	11
Maes 4: Triniaethau a sgiliau ymarferol	20
Maes 5: Ymglyfwyniadau cleifion	21
Maes 6: Cyflyrau.....	28
Atodiad 1: Cyflyrau wedi'u categoreiddio yn ôl systemau'r corff	40

Yn berthnasol i bob arholiad ac asemiatio fis Medi 2026 ymlaen

Gwybodaeth am *fap cynnwys yr MLA*

Mae map cynnwys yr Aseiad Trwyddedu Meddygol (MLA) yn rhan o'r ddogfen ganlynol ac wedi'i hatodi iddi: [Assuring readiness for practice: a framework for the MLA](#).

Pwrpas yr [MLA](#) yw sicrhau bod meddygon sy'n ceisio cael eu cofrestru â thrwydded i ymarfer meddygaeth yn y DU wedi cyrraedd trothwy ar gyfer ymarfer diogel sy'n briodol i'w pwynt mynediad ar y gofrestr feddygol.

Mae dwy elfen i'r MLA: prawf gwybodaeth gymhwysol (AKT) ac aseiad sgiliau clinigol a phroffesiynol (CPSA), lle gall ymgeiswyr ddangos eu bod yn barod i ymarfer yn ddiogel a'u bod yn gallu ymdopi ag ansicrwydd a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Map cynnwys yr MLA yw'r fframwaith sy'n sail i gynnwys y prawf gwybodaeth gymhwysol a'r aseiad sgiliau clinigol a phroffesiynol.

Themâu sylfaenol

Rhaid i feddygon sy'n dechrau ar eu hymarfer meddygol yn y DU allu darparu gofal diogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd clinigol – o reoli cleifion sydd â chyflyrau cyffredin fel mater o drefn, i ddelio â sefyllfaoedd cymhleth ac ansicr.

Mae hyd a lled yr ymarfer hwn yn cael ei adlewyrchu mewn tair thema sy'n sail i'r map cynnwys ac sy'n llywio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd sy'n ofynnol er mwyn dechrau ymarfer yn y DU:

- **Bod yn barod i ymarfer yn ddiogel.** Y gallu i ddelio'n gymwys ag argyfyngau a phroblemau iechyd aciwt, yn ogystal â phryderon iechyd a llesiant cronig cyffredin, a rhai anghyffredin ond difrifol, mewn gwahanol leoliadau yn system gofal iechyd y DU.
- **Ymdopi ag ansicrwydd.** Y gallu i ddelio ag ansicrwydd o ran diagnosis, prognosis a thriniaeth, gan wybod pryd a sut i ofyn am gymorth, uwchgyfeirio gofal a gwneud penderfyniadau clinigol sy'n seiliedig ar wybodaeth.
- **Darparu gofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.** Gwrando'n weithredol a helpu cleifion i wneud penderfyniadau; cydnabod effaith cydforbidrwydd, eiddilwch a chyd-destun cymdeithasol; gweithio'n effeithiol ac yn broffesiynol mewn timau amlbroffesiwn ac amlddisgyblaethol mewn gwahanol leoliadau i ddarparu gofal holistaidd i gleifion, gan ddilyn y fframwaith moesegol yn y ddogfen [Arfer meddygol da](#).

Yn y ddogfen [Outcomes for graduates](#), rydym yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i'r holl raddedigion sydd newydd gymhwyso yn ysgolion meddygol y DU ei wybod a bod yn gallu ei wneud er mwyn ymarfer yn ddiogel fel meddygon yn [Rhaglen Sylfaen y DU](#). Mae'r tair thema sy'n sail i *fap cynnwys yr MLA*, ac yn cydreddeg drwyddo, yn seiliedig ar brif ddeiliant *Outcomes for graduates*:

'Myfyrwyr meddygol yw meddygon yfory. Yn unol ag *Arfer meddygol da*, rhaid i feddygon sydd newydd gymhwyso sicrhau mai gofalu am gleifion yw eu blaenoriaeth, defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn modd cymwys, moesegol a phroffesiynol, a chymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain mewn sefyllfaoedd cymhleth ac ansicr'.

Mae'r prif ddeiliant hwn yr un mor berthnasol i feddygon rhyngwladol sy'n dod i weithio yn y DU ac ydyw i feddygon sy'n dechrau ar flwyddyn gyntaf hyfforddiant y Rhaglen Sylfaenol ar ôl graddio mewn ysgolion meddygol yn y DU.

Beth sy'n rhan o *fap cynnwys yr MLA*?

Mae'r map cynnwys yn amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd a ddisgwylir gan feddygon sy'n dechrau ar eu hymarfer meddygol yn y DU. Mae wedi ei lywio gan y dogfennau canlynol, ac yn cyd-fynd â nhw:

- [Arfer meddygol da](#): Mae'n nodi'r egwyddorion, y gwerthoedd, a'r safonau ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru â'r GMC. Rhaid i feddygon gydnabod bod cleifion yn unigolion ag anghenion amrywiol sy'n haeddu parch. Rhaid iddynt ystyried ffactorau cyd-destunol, a gweithio ar y cyd â chleifion i asesu eu hanghenion a'u blaenoriaethau mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu.
- [Outcomes for graduates](#): Mae'r rhain yn pennu deilliannau gorfodol sy'n cyd-fynd â'r safonau proffesiynol sydd wedi eu nodi yn *Arfer meddygol da*. Er nad yw'r map cynnwys yn atgynhyrchu'r deilliannau hyn yn llawn – ni ellir asesu rhai agweddau drwy'r prawf gwybodaeth gymhwysol (AKT) nac asesiad sgiliau clinigol a phroffesiynol (CPSA) (e.e. gwybodaeth am sut mae gwasanaeth iechyd y DU yn gweithio, neu gynnal portffolio datblygiad proffesiynol) – mae'n bwysig nodi bod rhaid i fyfyrwyr basio'r MLA a bodloni'r holl ofynion academiaidd a bennir gan eu prifysgol er mwyn graddio o ysgol feddygol yn y DU.
- [Generic professional capabilities framework](#): Mae'n diffinio'r galluoedd hanfodol sydd eu hangen ar gyfer gofal meddygol diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel yn y DU, sy'n adlewyrchu'r safonau proffesiynol yn *Arfer meddygol da*.
- Rhannau perthnasol o [gwricwlwm Rhaglen Sylfaen y DU](#): Mae'r rhain yn adlewyrchu sefyllfaoedd nodweddiadol y mae meddygon sy'n gweithio yn Rhaglen Sylfaen y DU yn eu hwynebu.
- Casgliad craidd o wybodaeth glinigol, a ddisgwylir ar y cam hwn mewn hyfforddiant: Cyflwynir hyn drwy gyflyrau ac ymgyflwyniadau (*presentations*) clinigol, gan ddarparu fframwaith o'r hyn y disgwylir i feddygon sy'n sefyll asesiad MLA ei ddeall a'i roi ar waith yn ymarferol.

Strwythur map cynnwys yr MLA

Mae map cynnwys yr MLA wedi'i drefnu'n chwe maes:

- **Maes 1:** Meysydd ymarfer clinigol
- **Maes 2:** Meysydd gwybodaeth broffesiynol
- **Maes 3:** Galluoedd clinigol a phroffesiynol
- **Maes 4:** Triniaethau a sgiliau ymarferol
- **Maes 5:** Ymglyfwyniadau cleifion
- **Maes 6:** Cyflyrau (sylwch: nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ond mae'n amlygu cyflyrau craidd)

Mae pob maes yn cynnwys disgrifiad o'i bwrpas ac wedi eu cynllunio i fod yn gysylltiedig â'i gilydd yn hytrach nag yn annibynnol o'i gilydd. Anogir ymgeiswyr i archwilio ac ystyried cysylltiadau ar draws meysydd.

Er enghraifft, mae syndromau coronaidd aciwt yn cynnwys grŵp o gyflyrau sy'n effeithio ar y system gardiofasgwlaidd. Mae disgwyl i ymgeiswyr:

- ddeall anatomeg rhydweliâu coronaidd
- dehongli symptomau a'r arwyddion clinigol yng nghyd-destun ymglyfwyniadau cleifion, a
- ffurfio diagnosis gwahaniaethol i lywio'r broses o reoli'r diagnosis yn briodol.

Pan fyddant yn berthnasol, mae'r meysydd yn cyfeirio at ein [safonau proffesiynol](#) gan gynnwys [Arfer meddygol da](#), yn ogystal â'n [safonau, deilliannau a'n canllawiau addysg](#). Mae hyn yn helpu ymgeiswyr a darparwyr asesiadau i ddeall beth yw'r cyd-destun a'r bwriad y tu ôl i'r cynnwys.

Rydym wedi ymrwymo i ddiweddarau map cynnwys yr MLA gyda diwygiadau amserol, gan sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd sydd eu hangen ar feddygon sy'n dechrau ar eu hymarfer meddygol yn y DU, ar eu pwynt mynediad perthnasol ar y gofrestr.

Maes 1: Meysydd ymarfer clinigol

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar gyd-destun darparu gofal gan gwmpasu cymysgedd o arbenigeddau, systemau'r corff a mathau o gleifion. Mae'n adlewyrchu cymhlethdod ymarfer meddygol a'r gwahanol leoliadau gofal a senarios cleifion y mae meddygon yn debygol o ddod ar eu traws yn ystod Rhaglen Sylfaen y DU.

Mae gofal holistaidd i gleifion yn gofyn am reolaeth gydweithredol, amlbroffesiwn ac amlddisgyblaethol. Yn hytrach na chategoreiddio arbenigeddau'n llym, mae'r maes hwn yn darparu canllawiau i ddeall cyd-destun ehangach gofal meddygol.

Mae rhannau o'r maes hwn yn cynnwys disgrifyddion sy'n cynnig cyd-destun ychwanegol ar gyfer pob pennawd. Bwriad y disgrifyddion yw arwain dealltwriaeth ac ni ddylid eu hystyried yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig o ran cwmpas.

Meysydd ymarfer clinigol	Disgrifydd
Acíwt ac argyfwng	Mae'n cynnwys tocsicoleg glinigol a meddygaeth gofal dwys
Anadlol	Mae'n cynnwys llawdriniaethau thorasig
Anaesthesia a meddygaeth amlawdriniaethol	Mae'n cynnwys rheoli poen
Arennol ac wroleg	
Canser	
Cardiofasgwlaidd	Mae'n cynnwys llawdriniaethau fasgwlaidd a chardiaidd
Cyhyrysgerbydol	Mae'n cynnwys trawma, orthopaedeg a rhiwmatoleg
Delweddu clinigol	
Dermatoleg	Mae'n cynnwys llosgiadau
Endocrin, diabetes a metaboleg	

Meysydd ymarfer clinigol	Disgrifydd
Gastroberfeddol	Mae'n cynnwys hepatoleg, llawdriniaethau rhan uchaf ac isaf y llwybr gastroberfeddol, llawdriniaethau hepatofustlaidd a phancreatig.
Gofal lliniarol a gofal diwedd oes	Mae'n cynnwys rheoli poen
Haematoleg glinigol	Mae'n cynnwys trallwysïadau gwaed a chynnyrch gwaed
Haint	
Iechyd meddwl	
Iechyd plant	Mae'n cynnwys babanod, plant, pobl ifanc a phontio i ofal oedolion
Iechyd rhyw	Mae'n cynnwys iechyd atgenhedlol, atal a thrin heintiau, a llesiant rhywiol
Llawfeddygaeth	Mae'n cynnwys trawsblannu a llawfeddygaeth gyffredinol, llawfeddygaeth blastig, llawfeddygaeth y fron, a llawfeddygaeth yr ên, yr wyneb a'r geg
Meddygaeth deulu a gofal iechyd sylfaenol	
Meddygaeth oedolion hŷn	
Niwrowyddorau	Mae'n cynnwys niwrolawfeddygaeth
Obstetreg a gynaeoleg	
Offthalmoleg	
Y glust, y trwyn a'r gwddf	

Maes 2: Meysydd gwybodaeth broffesiynol

Mae'r maes hwn yn amlinellu'r meysydd eang o wybodaeth broffesiynol, glinigol, wyddonol a gwyddonol gymdeithasol sy'n berthnasol i ofal cleifion, ar y lefel a ddisgwylir gan feddygon sy'n dechrau ar Raglen Sylfaen y DU. Mae'n darparu'r sylfaen hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol, gan alluogi meddygon i roi egwyddorion pathoffisiolegol, moesegol a chymdeithasol ar waith wrth ofalu am gleifion.

Mae rhai rhannau o'r maes hwn yn cynnwys disgrifyddion sy'n cynnig cyd-destun ychwanegol ar gyfer pob pennawd. Bwriad y disgrifyddion yw arwain dealltwriaeth ac ni ddylid eu hystyried yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig o ran cwmpas.

Meysydd gwybodaeth broffesiynol	Disgrifydd	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
Alergedd ac imiwnoleg		
Biocemeg glinigol	Mae hefyd yn cynnwys patholeg gemegol.	
Delweddu clinigol	Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o'r detholiad o ymchwiliadau priodol ar gyfer cyflyrau clinigol a chlefydau cyffredin	<i>Outcomes for graduates</i> (' Applying biomedical scientific principles ')
Egwyddorion seicolegol	Ar gyfer cleifion sy'n profi cyflyrau iechyd meddwl, mae hefyd yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ● eu hadnabod ● eu rheoli'n ddiogel ● eu hatgyfeirio. 	<i>Outcomes for graduates</i> (' Applying psychological principles ')
Ffactorau dynol a gwella ansawdd	Mae hefyd yn cynnwys deall sut gellir gwella ansawdd a diogelwch gofal cleifion drwy egwyddorion a dulliau gwella ansawdd, fel: <ul style="list-style-type: none"> ● archwilio, myfyrio ac ymchwilio ● gwyddor diogelwch a chylchoedd cynllunio- 	<i>Arfer meddygol da</i> (' Cynnal, datblygu a gwella eich perfformiad ') <i>Outcomes for graduates</i> (' Patient safety and quality improvement ')

Meysydd gwybodaeth broffesiynol	Disgrifiydd	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
	<p>gwneud-astudio-gweithredu</p> <ul style="list-style-type: none"> ● adnabod peryglon a rheoli risgiau cysylltiedig mewn lleoliad clinigol. 	
Geneteg a genomeg		
Gwyddorau biofeddygol	<p>Mae hefyd yn cynnwys anatomeg glinigol, ffisioleg glinigol, patholeg glinigol a gwyddor heneiddio.</p>	<p><i>Outcomes for graduates</i> ('Applying biomedical scientific principles')</p>
Haematoleg labordy	<p>Mae hefyd yn cynnwys dealltwriaeth o'r llwybr trallwysio gwaed (asesu risg a manteision trallwysiadau; dulliau diogel o gasglu samplau, profi cydnawsedd; a monitro adweithiau i drallwysiad, a rheoli hynny).</p>	
Histopatholeg	<p>Mae hefyd yn cynnwys cytoleg.</p>	
Iechyd cymdeithasol ac iechyd y boblogaeth	<p>Mae hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● hybu iechyd ac atal salwch ● economeg iechyd ● dehongli a defnyddio ymchwil, data ac ystadegau ● gwyddor gymdeithasol ● penderfynyddion cymdeithasol ar gyfer iechyd 	<p><i>Outcomes for graduates</i> ('Applying social science principles' a 'Health promotion and illness prevention')</p>

Meysydd gwybodaeth broffesiynol	Disgrifiydd	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
	<ul style="list-style-type: none"> ● anghydraddoldebau iechyd ● iechyd y cyhoedd ac iechyd byd-eang. 	
Microbioleg	<p>Mae hefyd yn cynnwys rhoi egwyddorion atal a rheoli heintiau ar waith.</p>	<p>Mae Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol yn cynnwys cyngor ar siarad â chleifion am y risg o drosglwyddo, beth i'w wneud os bydd cydweithwyr yn cael eu hanafu gan nodwydd, a rheoli a chadw golwg ar glefydau</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> ('Patient safety and quality improvement' a 'Applying biomedical scientific principles')</p>
Moeseg feddygol a'r gyfraith	<p>Mae hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● gwybodaeth am y dyletswyddau moesegol yn <i>Arfer meddygol da</i> a'r canllawiau manylach ● yr ystod o ddyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i ymarferwyr. 	<p>Arfer meddygol da a'r ystod o ganllawiau manylach</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> ('Professional values and behaviours', 'Professional and ethical responsibilities', a 'Legal responsibilities')</p>
Therapiwteg a ffarmacoleg glinigol	<p>Mae hefyd yn cynnwys rheoli poen.</p>	<p>Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau</p>

Maes 3: Galluoedd clinigol a phroffesiynol

Mae'r maes hwn yn amlinellu'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r nodweddion sydd eu hangen er mwyn darparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol, gan weithredu fel aelod cymwys a chyfrifol o'r tîm gofal iechyd.

Mae'r galluoedd wedi'u rhannu'n:

- Sgiliau proffesiynol.
- Gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol.

Mae'r categorïau hyn yn cyd-fynd ag *Outcomes for graduates a'r Generic professional capabilities framework* – mae'r ddwy ddogfen yn adlewyrchu'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r safonau proffesiynol a nodir yn *Arfer meddygol da*.

Yn ogystal â gofal uniongyrchol i gleifion, mae'r galluoedd hyn yn cynnwys hunanymwybyddiaeth, rhesymu clinigol, cyfathrebu, gwaith tîm, arweinyddiaeth, a gwneud penderfyniadau moesegol. Mae'n rhaid i feddyg sydd newydd gymhwysu allu asesu, gwneud diagnosis, a rheoli cleifion, cyfathrebu'n effeithiol, a chymryd rhan mewn ymarfer myfyriol i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Disgwylir i feddygon ddangos gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol, e.e. drwy fod yn deg, osgoi gwahaniaethu, a helpu cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus. Gall ymgeiswyr MLA ddatblygu a phrofi eu dealltwriaeth o *Arfer meddygol da* (a'r canllawiau manylach sy'n deillio ohono) gan ddefnyddio'r adnoddau canlynol:

- [Arfer meddygol da](#)
- [Y safonau proffesiynol](#) gan gynnwys *Arfer meddygol da* a'r canllawiau manylach
- [Good medical practice in action: adnodd ar-lein rhyngweithiol](#)
- [Welcome to UK Practice: case studies](#)
- Mae [Cyflawni arfer meddygol da: canllawiau ar gyfer myfyrwyr meddygol](#) yn dangos sut mae egwyddorion *Arfer meddygol da* yn berthnasol i fyfyrwyr meddygol

Mae rhai rhannau o'r maes hwn yn cynnwys disgrifyddion i gynnig cyd-destun ychwanegol ar gyfer pob pennawd. Bwriad y disgrifyddion yw arwain dealltwriaeth ac ni ddylid eu ystyried eu bod yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig o ran cwpas.

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
Sgiliau proffesiynol		
<p>Cael a gwerthuso gwybodaeth berthnasol am y claf drwy archwilio hanes ac iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl yn briodol, creu rhestr wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosau gwahaniaethol</p>	<p>Mae hefyd yn cynnwys meithrin perthynas therapiwtig â'r claf, ystyried a chymryd camau priodol ynglŷn â ffactorau cyddestunol perthnasol, fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● ffactorau cymdeithasol (e.e. cyflogaeth ac addasrwydd i ymarfer, tai, statws mudo) ● ffactorau ffordd o fyw (e.e. rhoi'r gorau i ysmegu, ymarfer corff, deiet) ● rhwystrau rhag cael gafael ar ofal neu reoli iechyd (e.e. llythrennedd digidol, mynediad at drafnidiaeth) ● unrhyw nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol a sut gallai'r rhain groestorri â'i gilydd ● nodweddion personol perthnasol eraill nad ydynt yn cael eu gwarchod gan 	<p><i>Arfer meddygol da</i> ('Darparu gofal clinigol da') <i>Outcomes for graduates</i> 'Communication and interpersonal skills' a 'Diagnosis and medical management'</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
	ddeddfwriaeth (e.e. hunaniaeth rhywedd, cefndir diwylliannol).	
Dynodi a gofyn am ymchwiliadau perthnasol, dehongli canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gor-ymchwilio, gor-ddiagnosio a gor-bresgripsiynu	Mae hefyd yn cynnwys gofyn am ddelweddau clinigol a gweithredu ar sail y rheini	<p><i>Arfer meddygol da</i> (‘Darparu gofal clinigol da’)</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Diagnosis and medical management’)</p>
Llunio cynlluniau rheoli mewn achosion brys ac aciwt, a rheoli cleifion yn amlawdriniaethol	Mae hefyd yn cynnwys cydnabod y posibilrwydd o salwch difrifol, a chychwyn ar y camau cychwynol i’w reoli, a rheoli meddyginiaethau’r claf	<p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Diagnosis and medical management’)</p>
Llunio cynlluniau rheoli ar gyfer cyflyrau cronig	Mae hefyd yn cynnwys cydnabod y posibilrwydd o salwch difrifol a chychwyn ar y camau cychwynol i’w reoli ac adsefydlu	<p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Diagnosis and medical management’)</p>
Llunio cynlluniau rheoli i hybu iechyd ac atal salwch	<p>Mae hefyd yn cynnwys cleifion unigol a’r boblogaeth, ac mewn partneriaeth â’r claf, ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● ffactorau cymdeithasol a ffordd o fyw ● rhwystrau rhag cael gafael ar ofal a rheoli eu hiechyd ● galwedigaeth ac addasrwydd i weithio 	<p><i>Arfer meddygol da</i> (‘Darparu gofal clinigol da’, ‘Rhannu gwybodaeth gyda cleifion’ a ‘Gofalu am y claf cyfan’)</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Health promotion and illness prevention’)</p>

Galluedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
<p>Cyfathrebu'n effeithiol â chleifion, perthnasau, partneriaid, gofalwyr ac eiriolwyr eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● adsefydlu <p>Mae hefyd yn cynnwys cynnal ymgynghoriad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a dangos sgiliau rheoli, fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● darganfod beth sy'n bwysig i'r claf ● rhannu wybodaeth briodol am y dewis o driniaethau, gan gynnwys yr opsiwn i benderfynu mynd heb driniaeth ● adnabod gwahaniaethau ac anghenion o ran dulliau cyfathrebu, gan wneud addasiadau priodol, a gofyn am gymorth pan fo angen. 	<p>Arfer meddygol da (‘Maes 2: Cleifion, partneriaeth a chyfathrebu’) a Gwneud penderfyniadau a chydsynio i gael arweiniad ar y ddeialog â chleifion sy'n arwain at benderfyniad, gan gynnwys rhannu wybodaeth (mae hyn yn cynnwys cleifion sydd â diffyg galluedd a phryd i gynnwys eraill yn y broses o wneud penderfyniad)</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Communication and interpersonal skills’ a ‘Diagnosis and medical management’)</p>
<p>Dangos dealltwriaeth o gyfrinachedd, cydsyniad a galluedd cleifion wrth ddarparu gofal</p>		<p>Arfer meddygol da, (‘Maes 2: Partneriaeth a chyfathrebu’)</p> <p>Gweler Gwneud penderfyniadau a chydsynio i gael arweiniad ar gynnal sgysiau â chleifion, rhannu'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau, a sicrhau eich bod wedi cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y claf. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau pan fydd gan gleifion ddiffyg galluedd.</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
		<p>Mae Cyfrinachedd: arfer da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion yn amlinellu egwyddorion cyfrinachedd ac yn darparu fframwaith i'ch helpu i benderfynu pryd a pham y dylai gwybodaeth am gleifion gael ei rhannu. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar reoli a diogelu gwybodaeth, yn ogystal â rhannu gwybodaeth ar ôl i glaf farw.</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> ('Professional and ethical responsibilities')</p>
<p>Presgripsiynu, adolygu, cyfleu a monitro effeithiau meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol</p>	<p>Mae hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● stopio neu newid meddyginiaethau pan fydd hynny'n briodol ● presgripsiynu cymhleth (ee, amlgyffuriaeth) ● presgripsiynu hylifau a chynhyrchion gwaed yn ddiogel ● a gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel (gan gynnwys nwyon meddygol) pan fydd hynny'n briodol 	<p>Mae Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau yn rhoi canllawiau manylach ar safonau proffesiynol ar gyfer cynnig, presgripsiynu, neu ddarparu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol.</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> ('Prescribing medicines safely')</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
Rheoli poen		<p><i>Arfer meddygol da</i> (‘Trin cleifion gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch’)</p>
Cynnal triniaethau’n ddiogel		<p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Diagnosis and medical management’, Outcome 13)</p>
Cymryd rhan mewn dulliau cyfannol o reoli cleifion lliniarol a diwedd oes	<p>Mae hefyd yn cynnwys rheoli symptomau cleifion sy’n agosáu at ddiwedd oes</p>	<p>Mae Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau yn darparu fframwaith i helpu meddygon i ddiwallu anghenion cleifion sy’n agosáu at ddiwedd eu hoes.</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Diagnosis and medical management’, Outcome 15)</p>
Gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol		
Ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)	<p>Mae hefyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> deall a rhoi ar waith y cyfrifoldebau moesegol a chyfreithiol a nodir yn <i>Arfer meddygol da</i> ac yn y canllawiau manylach – fel terfynau proffesiynol, credoau personol, defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol, mynegi pryderon a gweithredu 	<p>Gweler <i>Arfer meddygol da</i> a’r ystod o ganllawiau manylach, sy’n ymhelaethu ar rai o’r safonau a nodwyd yn <i>Arfer meddygol da</i>.</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Professional behaviours’, ‘Professional and ethical responsibilities’, a ‘Legal responsibilities’)</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
	<p>arnynt, y ddyletswydd gonestrwydd a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau</p> <ul style="list-style-type: none"> • adnabod rhagfarn ddiarwybod ac ymwybodol tuag at unigolion a grwpiau, a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â hynny. 	
<p>Diogelu cleifion sydd yn agored i niwed</p>	<p>Mae hefyd yn cynnwys adnabod cleifion sydd yn agored i niwed, a chymryd camau priodol yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol</p>	<p>Gweler <i>Arfer meddygol da</i> (‘Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef niwed’) ar gyfer egwyddorion diogelu ochr yn ochr a’r canllaw Plant a phobl ifanc a’n hwb Diogelu oedolion.</p> <p>Gweler hefyd Gwneud penderfyniadau a chydlynio i gael arweiniad ar y canlynol: os ydych chi’n poeni na fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad o’i wirfodd o bosibl, a gwneud penderfyniadau pan fydd gan gleifion ddiffyg galluedd.</p> <p><i>Outcomes for graduates</i> (‘Safeguarding vulnerable patients’)</p>
<p>Delio’n briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli amlforbidrwydd a blaenoriaethu tasgau</p>	<p>Mae hefyd yn cynnwys ymwybyddiaeth sefyllfaol, a gwybod sut a phryd i ofyn am help e.e.:</p>	<p>Gweler hefyd <i>Arfer meddygol da</i> (‘Dirprwyo mewn ffordd ddiogel a phriodol’) “Os bydd cydweithiwr yn dirprwyo tasg i chi ond nid ydych chi’n</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
	<ul style="list-style-type: none"> os oes gennych chi amheuron am dasg sydd wedi cael ei dirprwyo i chi os ydych chi'n teimlo y gallai tasg wedi'i dirprwyo fod y tu hwnt i derfynau eich cymhwysedd os ydych yn credu nad oes gennych chi lefel briodol o oruchwyliaeth glinigol. 	<p>teimlo'n hyderus eich bod yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau neu'r hyfforddiant i'w chyflawni yn ddiogel, rhaid i chi flaenoriaethu diogelwch y claf a cheisio cymorth, hyd yn oed os byddwch eisoes wedi cytuno i gyflawni'r dasg yn annibynnol."</p> <p>Outcomes for graduates ('Dealing with complexity and uncertainty')</p>
Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol, yn barchus ac yn gefnogol fel aelod o'r tîm	Mae hefyd yn cynnwys arweinyddiaeth, a chydabod a myfyrio ar ymddygiad gwael (eich hun a chydweithwyr) a chymryd unrhyw gamau dilynol priodol	<p>Arfer meddygol da ('Maes 3: Cydweithwyr, diwylliant a diogelwch')</p> <p>Outcomes for graduates ('Leadership and team working')</p>
Rheoli risg	Mae hefyd yn cynnwys gweithio mewn amodau heriol, gwybod sut a phryd i fynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, a defnyddio systemau adrodd am faterion diogelwch.	<p>Arfer meddygol da ('Maes 3: Cydweithwyr, diwylliant a diogelwch')</p> <p>Mae Myneqi pryderon am ddiogelwch cleifion a chymryd camau yn archwilio pwy yw'r person neu'r sefydliad gorau i chi fynegi pryderon gyda nhw, a sut i godi eich pryderon</p> <p>Outcomes for graduates ('Professional and ethical responsibilities')</p>

Galluoedd clinigol a phroffesiynol	Disgrifiyddion	Canllawiau ychwanegol y GMC ar wybodaeth, sgiliau neu ymddygiadau perthnasol
Defnyddio a chofnodi gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol		<p>Mae Cyfrinachedd: arfer da wrth ymdrin â gwybodaeth cleifion yn cynnwys canllawiau ar reoli a diogelu gwybodaeth am gleifion</p> <p>Outcomes for graduates (‘Using information effectively and safely’)</p>
Defnyddio canllawiau sy’n berthnasol yn effeithiol, a gwerthuso’n feirniadol yr wybodaeth a'r dystiolaeth wrth asesu claf	Mae hefyd yn cynnwys yr wybodaeth a'r dystiolaeth y mae'r claf yn ei rhannu.	<p>Outcomes for graduates (‘Using information effectively and safely’)</p>
Dangos ymarfer myfyriol	Mae hefyd yn cynnwys gofyn am adborth.	<p>Arfer meddygol da (‘Cynnal, datblygu a gwella eich perfformiad’)</p> <p>Gweler The Reflective practitioner i gael arweiniad ar egwyddorion ymarfer myfyriol</p>
Dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd hunanofal a llesiant personol		<p>Arfer meddygol da (‘Rheoli risgiau a achosir gan eich iechyd’)</p> <p>Outcomes for graduates (‘Professional and ethical responsibilities’)</p>

Maes 4: Triniaethau a sgiliau ymarferol

Y [rhestr o sgiliau ymarferol a thriniaethau](#) sy'n ategu Outcomes for graduates yw'r maes hwn. Mae'n nodi'r sgiliau, y triniaethau a'r lefelau cymhwysedd y mae'n rhaid i feddygon sydd newydd gymhwyso eu cyflawni er mwyn ymarfer yn ddiogel pan fyddant yn dechrau gweithio.

Mae'r maes hwn – ynghyd â 'Galluoedd clinigol a phroffesiynol' – yn arbennig o berthnasol i Aseidiadau o Sgiliau Proffesiynol a Chlinigol (CPSAs).

Yn berthnasol i bob arholiad ac asesiad o fis Medi 2026 ymlaen

Maes 5: Ymgyflwyniadau cleifion

Mae'r maes hwn yn cynnwys arwyddion, symptomau, canlyniadau ymchwiliadau a materion eraill sy'n ymwneud â chleifion y mae meddygon yn aml yn dod ar eu traws yn Rhaglen Sylfaen y DU.

Mae disgwyl i ymgeiswyr ddatblygu diagnosiau gwahaniaethol strwythuredig ac eang, gan ystyried yr holl sbectwm o gyflyrau sylfaenol – gan gynnwys y rhai sydd heb gael eu rhestru'n unigol ym *map cynnwys yr MLA*. Rhaid iddynt gydnabod bod cleifion yn aml yn ymgyflwyno â mwy nag un broblem gydamserol a bod cydforbidrwydd yn gallu newid y darlun clinigol.

Hefyd, dylai ymgeiswyr gydnabod y gall cleifion:

- fod heb unrhyw arwyddion na symptomau amlwg o salwch
- disgrifio eu symptomau yn eu geiriau eu hunain, mewn ffordd nad yw o bosibl yn cyd-fynd yn dwt â rhestrau sydd wedi'u diffinio'n barod.

Felly, rhaid i ymgeiswyr barhau i addasu a defnyddio rhesymeg glinigol sy'n adlewyrchu realiti ymarfer clinigol o ddydd i ddydd.

Rhestr o ymgyflwyniadau cleifion

A-Y ymgyflwyniadau cleifion	A-Y ymgyflwyniadau cleifion
A	Anaf i'r pen
Addasrwydd i yrru	Anaffylacsis
Aflonyddwch Meddwl	Anawsterau ymddygiad yn ystod plentyndod
Alergedd a/ neu anoddefiad bwyd	Anffrwythlondeb/ tanffrwythlondeb
Alergedd/ adwaith alergaidd	Anffurfiadau cyhyrysgerbydol
Allrediad eisbilennol	Anhrefn meddwl
Amnesia	Annormaleddau cynhenid
Amenorea	Annormaleddau o ran electrolytau
Anabledd deallusol	Annormaleddau o ran ewinedd
Anaemia	Anosmia
Anaf aciwt i'r arennau	Ansadrwydd
Anaf i feinwe feddal	Anymataliaeth ysgarthol

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Archwiliadau llesiant
Ataliad cardioresbiradol
B
Babi'n crïo
Babi'n marw'n sydyn heb esboniad
Beichiogrwydd a gofal cyn geni arferol
Beichiogrwydd anfwriadol a therfynu beichiogrwydd
Braich neu goes ddiguriad
Braich neu goes wedi chwyddo
Brathiadau a phigiadau
Brech â smotiau gwaedu/ pwrpwrig
Brech ar y croen (acíwt a chronig)
Brechu
Briw(iau) ar y croen
Bygwth neu feddwl am niweidio eraill
Bysedd poenus/ coch/ oer
C
Cael trafferth ymdopi â gweithgareddau bywyd bob dydd
Caethiwed
Cais/ cyngor am atal cenhedlu
Cam-drin ac esgeuluso plentyn

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Cam-drin domestig
Cam-drin pobl hÿn
Cam-drin rhywiol
Camddefnyddio sylweddau
Canfyddiadau damweiniol
Canlyniad annormal mewn prawf ceg y groth
Cerddediad annormal
Claf amdriniaethol
Claf ar therapi gwrthblatennau
Claf ar therapi gwrthgeulo
Claf sy'n dirywio
Clefyd cronig ar yr arenau
Clefyd melyn
Cleisiau
Cloffni mewn braich neu goes
Clust boenus
Colli adlewyrchiad coch o'r llygad
Colli clyw
Colli cof
Colli gwallt
Colli pwysau
Corffyn estron
Crychguriadau

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Crygni a newid yn y llais
Cryndod
Cur pen
Cyanosis
Cyfbilen a chroen gwelw
Cyfog
Ch
Chwydd yn yr abdomen
Chwydu
Chwydd yn yr wyneb/ o amgylch y llygaid
Chwyrnu
Chwysu yn y nos
D
Dadhydradiad
Datblygiad annormal/ oedi mewn datblygiad
Diffyg anadl
Diffyg symudedd
Diffyg twf
Dipopia
Dolur gwddf
Dolur rhydd
Dryswch (acíwt a chronig)

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Dysmenorhea
E
Eiddilwch
Enwresis y nos
Epistacsis
Esgor
Esgoriad cymhleth (gan gynnwys cymhlethdodau wrth esgor)
F
Fwlfa yn cosi/ nam ar y fwlfa
Ff
Ffagelliad
Ffimosis/ paraffimosis
Ffitiau
Fflachiadau a brychau mewn meysydd golwg
G
Geni'n gynnar
Glasoed hwyr/ cynnar
Gofal a chymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth
Gofal diwedd oes/ symptomau o salwch terfynol

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Gorddos
Gorflinder
Gorfywiogrwydd a/ neu fethu canolbwyntio
Gorgyfogi
Gormod o wallt
Gwaedlif enfawr
Gwaedu annormal o'r wain
Gwaedu ar ôl geni
Gwaedu cyn geni (<i>antepartum</i>)
Gwaedu o'r rectwm
Gwendid mewn braich neu goes
Gwendid niwrogyhyrol
Gwendid yn yr wyneb
Gwenwyno
Gwich
Gynaecomastia
H
Haematemesis
Haematwria
Haemoptysis
Hanes teuluol o anhwylder genetig posibl
Hunan-esgeuluso

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Hunan-niweidio
L
Lwmp o dan y croen
Lwmp yng nghesail y forddwyd
Lwmp yn y fron
Lwmp yn y fwlfaf/ wain
Lwmp yn y gwddf
Lymffadenopathi
LI
Lleferydd dan bwysedd
Llewygu
Llithriad y rectwm
Llithriad y wain
Llosgiadau
Llygad coch
Llygaid croes
M
Magu pwysau
Marwolaeth a marw
Marwolaeth yn y groth
Màs yn y pelfis
Màs yn yr abdomen

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Meddwl am hunanladdiad
Melaena
Menopos/ perimenopos
Murmur ar y galon
Myalgia/ poen yn y cyhyrau
Mynd yn llai ymwybodol/ mynd yn anymwybodol
N
Nam ar y croen
Newid mewn archwaeth bwyd
Newid mewn arferion ysgarthu
Newid mewn hwyliau
Newid mewn synhwyriad, diffyg teimlad a phinnau bach
Newid mewn ymddygiad/ personoliaeth
Newid yn lliw'r carthion
Newid yn symudiadau'r ffetws/ llai o symudiadau gan y ffetws
Newidiadau i'r golwg neu golli golwg (aciwt a graddol)
Nodyn ffitrwydd
O
Oedema perifferol a chwydd yn y ffêr
Oligwria/ anwria

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Organomegaledd
P
Pendro
Peswch
Plentyn â dysmorffia
Plentyn sâl
Plentyn sy'n gloff
Poen a/ neu lwmp/ chwydd yn y sgrotwm/ ceilliau
Poen cefn
Poen wrth anadlu i mewn
Poen wrth gael cyfathrach rywiol
Poen yn y frest
Poen yn y pelfis
Poen yn yr abdomen (aciwt a chronig)
Poen yn yr esgyrn
Poen yn yr wyneb
Poen yn yr ystlys
Poen/ chwydd/ stiffrwydd yn y cymalau (aciwt a chronig)
Poen/ stiffrwydd yn y gwddf
Poen/ teimlad anesmwyth yn y llygaid
Poen/ tynerwch yn y fron
Polydipsia (syched)

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Prawf wrin annormal
Problemau bwydo babanod
Problemau cysgu
Problemau iaith a lleferydd
Problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl rhoi genedigaeth
Problemau llyncu
Prwritis
Pryderon ynghylch galluedd meddyliol
Ptosis
Pwerperiwm
Pwysedd gwaed isel
Pwysedd gwaed uchel
Rh
Rhedlif o'r glust a'r trwyn
Rhedlif o'r nipl
Rhedlif o'r wain
Rhedlif o'r wrethra, a briwiau/ dafadennau ar yr organau cenedlu
Rheoli poen (aciwt a chronig)
Rhiant pryderus
Rhithdybiau
Rhithweledigaethau
Rhwyg/ anaf i'r croen

A-Y ymgyflwyniadau cleifion
Rhwymedd
Rhwysr yn y trwyn
S
Sioc
Stridor
Symptomau na ellir eu hesbonio'n feddygol
Symptomau o amgylch yr anws
Symptomau wrinol
Symudiadau anwirfoddol
Syrthio
T
Tagu
Teimlo'n orbryderus
Tinitws
Trafferthion rhywiol
Trawma bach
Trawma i'r llygaid
Trawma mawr
Twymyn
Y
Y bendro

A-Y ymgyflwyniadau cleifion

Ymddygiad annormal o ran bwyta neu ymarfer corff

A-Y ymgyflwyniadau cleifion

Yn fach/ mawr wrth ystyried oed y ffetws

Yn berthnasol i bob arholiad ac asesiad o fis Medi 2026 ymlaen

Maes 6: Cyflyrau

